



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Law yn Llaw at Iechyd – Cynllun Cyflawni ar gyfer Cyflyrau Niwrolegol

Cynllun cyflawni hyd at 2017
ar gyfer GIG a'i bartneriaid

CYNNWYS

Rhagair gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Rhagair gan Brif Weithredwr GIG Cymru

1.	Trosolwg	1
2.	Cyd-destun strategol	1
3.	Ein Gweledigaeth	3
4.	Pam mae hyn yn flaenoriaeth?	3
5.	Ein taith hyd yma	5
6.	Beth rydym am ei gyflawni?	5
	Thema gyflawni un: Codi ymwybyddiaeth o gyflyrau niwrolegol	6
	Thema gyflawni dau: Gwneud diagnosis amserol o gyflyrau niwrolegol	7
	Thema gyflawni tri: Gofal cyflym ac effeithiol	9
	Thema gyflawni pedwar: Byw gyda chyflwr niwrolegol	12
	Thema gyflawni pump: Plant a Phobl Ifanc	15
	Thema gyflawni chwech: Gwella gwybodaeth	17
	Thema gyflawni saith: Targedu ymchwil	19
7.	Cydweithio	21
8.	Mesur llwyddiant	23
9.	Cynlluniau lleol – gweithredu lleol	23
10.	Beth sy'n rhaid digwydd a phryd: Camau gweithredu er mwyn helpu i gyflawni themâu un i saith	24
	Atodiad un - Dolenni at ddogfennau cyfeirio	27

Mark Drakeford AC

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Rhagair y Gweinidog

Mae Llywodraeth Cymru am sicrhau bod pobl sydd wedi'u heffeithio gan gyflwr niwrolegol yn cael mynediad amserol i ofal o ansawdd uchel, sydd wedi'i integreiddio gyda gwasanaethau cymdeithasol lle bo hynny'n briodol, waeth ble maen nhw'n byw a sut mae'r gwasanaethau hyn yn cael eu darparu.

Erbyn 2017, rhaid i GIG Cymru ynghyd â'i bartneriaid, gyflawni'r ymrwymadau newydd i bobl Cymru.

Mae'n rhaid i fyrddau iechyd gymryd perchnogaeth leol a rhoi cynlluniau effeithiol ar waith i ddarparu gwasanaethau cydgysylltiedig. Rhaid i ofal arbenigol gysylltu'n hawdd â gwasanaethau lleol, er mwyn gwella profiadau a chanlyniadau cleifion. Yn benodol, mae'n hanfodol bod GIG Cymru a'i bartneriaid yn canolbwyntio ar ddiwallu anghenion ein pobl, gan leihau anghydraddoldeb iechyd a gwahaniaethau o ran hygyrchedd gwasanaethau ledled Cymru.

Nod y ddogfen hon – sy'n un o gyfres o Gynlluniau Cyflawni Gwasanaeth Cenedlaethol – yw datblygu a gwella gwasanaethau i bobl â chyflyrau niwrolegol. Mae'n ei gwneud hi'n ofynnol i GIG Cymru a'i bartneriaid wneud y canlynol:

Cynnal asesiadau o anghenion y boblogaeth leol

Dadansoddi'r bwlch rhwng y ddarpariaeth bresennol a'r gofynion yn y Cynllun hwn

Cynllunio a chymryd camau i gau'r bwlch hwnnw

Dangos, drwy adroddiadau rheolaidd, fod canlyniadau cleifion yn gwella, gyda phwyslais ar leihau anghydraddoldeb iechyd

Credaf y gallwn ddarparu gofal darbodus o ansawdd uchel i bobl ag amrywiaeth eang o gyflyrau niwrolegol. Mae hynny'n dibynnu ar bartneriaeth rhwng y GIG a'r defnyddwyr, lle mae arbenigedd y ddwy ochr yn cael ei gydnabod a'i weithredu, er mwyn sicrhau gwelliant yn unigol ac ar y cyd. Dyma yw nod y cynllun hwn.

Rhagair gan Simon Dean, Prif Weithredwr Interim GIG Cymru

Mae cyflyrau niwrolegol yn effeithio ar lawer o bobl yng Nghymru. Gall y cyflyrau hyn effeithio'n ddifrifol iawn ac yn barhaol ar fywydau unigolion a'u teuluoedd. Mae'n hanfodol bod ymateb y GIG a'i bartneriaid yn amserol, yn ddarvoudus ac yn effeithiol.

Mae'r Cynllun Cyflawni hwn yn rhoi'r arweiniad angenrheidiol ac yn egluro'r safonau gofynnol. Mae'n rhaid i ni ddarparu gofal rhagorol, trwy wneud diagnosis amserol a thrwy gynnig triniaeth briodol a chymorth parhaus. Ni all y GIG wneud hyn ar ei ben ei hun. Rhaid iddo weithio gyda sefydliadau partner yn y sector cyhoeddus a'r sector gwirfoddol. Trwy ganolbwyntio ar ansawdd a phrofiadau'r unigolyn, gallwn gyflawni'r gwelliannau y mae pawb ohonom eu heisiau.

1. Trosolwg

Mae cyflyrau niwrolegol yn effeithio ar oddeutu 500,000¹ o bobl yng Nghymru. Mae'r Cynllun Cyflawni ar gyfer Cyflyrau Niwrolegol yn cynnig fframwaith ar gyfer gweithredu i fyrddau iechedd a'u partneriaid. Mae'n nodi'r hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei ddisgwyl o ran cynllunio a darparu gofal o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ar gyfer unrhyw un sydd wedi'i effeithio gan gyflwr niwrolegol. Mae'n canolbwyntio ar ddiwallu angen y boblogaeth, mynd i'r afael â gwahaniaethau o ran hygyrchedd gwasanaethau a lleihau anghydraddoldeb mewn canlyniadau iechedd drwy 7 thema:

Thema gyflawni un: Codi ymwybyddiaeth o gyflyrau niwrolegol

Thema gyflawni dau: Gwneud diagnosis amserol o gyflyrau niwrolegol

Thema gyflawni tri: Gofal cyflym ac effeithiol

Thema gyflawni pedwar: Byw gyda chyflwr niwrolegol

Thema gyflawni pump: Plant a Phobl Ifanc

Thema gyflawni chwech: Gwella gwybodaeth

Thema gyflawni saith : Targedu ymchwil

Ar gyfer pob thema, mae'n nodi'r canlynol:

Disgwyliadau o ran cyflawni ar gyfer rheoli cyflyrau niwrolegol

Blaenoriaethau penodol ar gyfer 2013-2017

Cyfrifoldeb am ddatblygu a chymryd camau i gyflawni'r blaenoriaethau penodol

Mesurau sicrwydd posibl

Mae'r rhain yn ategu'r gofynion ansawdd a gefnogwyd yn *Adroddiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Lwybrau Gofal ar gyfer Cyflyrau Niwrolegol Hirdymor*, sy'n rhaid ei ddarparu ochr yn ochr â'r Cynllun Cyflawni hwn.

Mae gwasanaethau i bobl sydd mewn perygl o gael strôc, neu sydd wedi cael strôc, yn cael eu trafod ar wahân yn y Cynllun Cyflawni ar gyfer Strôc, er y gall rhai gweithrediadau orgyffwrdd neu elwa ar ddull cydgysylltiedig.

2. Cyd-destun Strategol

Mae *Rhaglen Lywodraethu* Llywodraeth Cymru a'i Chynllun pum mlynedd ar gyfer y GIG, *Law yn Llaw at Iechyd*, yn pennu rhaglen uchelgeisiol ar gyfer iechedd a lles yng Nghymru, er mwyn:

Gwella iechedd a lles i bawb

¹ Amcangyfrifwyd y ffigur yn ôl nifer yr achosion o'r cyflyrau a gafwyd

Gwella hygyrchedd a phrofiadau cleifion

Bydd gwella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau yn gwella canlyniadau iechyd a lles

Mae Rhagori: Y Cynllun Sicrhau Ansawdd ar gyfer y GIG yng Nghymru, 2012-2016 yn disgrifio taith i wneud ein gwasanaethau'n rhagorol. Mae'n amlinellu'r camau gweithredu ar gyfer sicrhau ansawdd a gwelliant. Rydym yn ymrwymo i GIG wedi'i ysgogi gan ansawdd sy'n darparu gwasanaethau diogel, effeithiol, hygyrch, fforddiadwy, cynaliadwy sy'n darparu profiad rhagorol i'r claf.

Mae modd darparu llawer o'r gofal a'r cymorth parhaus i bobl â chyflyrau hirdymor drwy ofal sylfaenol a chymunedol yn y cartref neu'n agos i'r cartref. Mae *Gosod y Cyfeiriad* (2010) yn rhagweld byrddau iechyd, llywodraeth leol,artneriaid trydydd sector a sector annibynnol yn cydweithio i asesu angen unigolion a chymunedau lleol gan ddarparu gofal iechyd a chymdeithasol integredig lleol i ddiwallu'r angen hwnnw. Mae cynllun Llywodraeth Cymru, *Darparu Gofal Iechyd Lleol*, a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2013, yn canolbwyntio o'r newydd ar yr angen i newid yn gyflym a gwella lleoliadau gofal sylfaenol a chymunedol.

Dylid darllen y cynllun cyflawni hwn ochr yn ochr â'r cynlluniau cyflawni ar gyfer Gofal Diwedd Oes, Strôc, Clefyd y Galon, Pobl sy'n Ddifrifol Wael a Chyflyrau Anadlol, yn ogystal â Chynllun Gweithredu Cymru ar gyfer Clefydau Prin pan gaiff ei gyhoeddi.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar anghenion pobl fel y nodwyd yn ei fframwaith er mwyn cryfhau darpariaeth cyfrwng Gymraeg '*Mwy na geiriau ...*' (2012). Mae hyn yn cynnwys diwallu anghenion siaradwyr Cymraeg a'u teuluoedd neu ofalwyr, trwy sicrhau eu bod yn gallu derbyn gwasanaethau yn eu hiaith eu hunain trwy gydol y broses ofalu os dyna eu dymuniad. Mae hyn yn hynod bwysig i bobl â rhai chyflyrau niwrolegol, megis dementia neu niwed i'r ymennydd, a all gollu eu hail iaith. Gall llawer o rwystrau a heriau eraill i gyfathrebu wynebu pobl wrth ddefnyddio gwasanaethau iechyd. Mae rhoi sylw i anghenion cyfathrebu pob defnyddiwr gwasanaeth yn elfen gwbl hanfodol o gynllunio a darparu gwasanaethau.

Nid yw cefnogi pobl sy'n byw gyda chyflwr niwrolegol yn fater sy'n gyfyngedig i'r gwasanaethau iechyd. Mae gan wasanaethau llywodraeth leol megis gwasanaethau tai, addysg, hamdden a gwasanaethau cymdeithasol yn arbennig, ran hanfodol yn y gwaith. Dylid ystyried y cynllun hwn hefyd ochr yn ochr â'n *Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith Gweithredu, Fframwaith Gweithredu ar gyfer Byw'n Annibynnol* a'r Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.

Mae gofalwyr yn ystyriaeth bwysig wrth ddatblygu gwasanaethau i bobl â chyflyrau niwrolegol. Mae'r cynllun hwn yn nodi rhai camau gweithredu penodol a mesurau sicrwydd sy'n gysylltiedig â rôl gofalwyr. Yn ogystal, wrth weithredu'r cynllun cyflawni hwn, mae angen ystyried rôl y gofalwr yn unol â *Strategaeth ar gyfer Gofalwyr yng Nghymru* (2013) Llywodraeth Cymru.

Mae angen i ddatblygiad gwasanaethau niwrolegol yn y dyfodol gael ei ystyried mewn perthynas â themâu datblygol Llywodraeth Cymru, sef gofal iechyd darbodus

a chydgyhyrchiol. Bydd y cynllun hwn yn sefydlu prosiect peilot sy'n datblygu model o ofal cydgyhyrchiol, sy'n canolbwyntio ar y claf gyda chyfraniad gan bob sefydliad perthnasol.

3. Ein Gweledigaeth

Mae'r *Rhaglen Lywodraethu* yn nodi'r canlyniadau poblogaeth cyffredinol rydym am eu cyflawni; gwella iechyd i bawb a llai o anghydraddoldeb iechyd. Bydd lleihau effaith cyflyrau niwrolegol ar fywydau pobl yng Nghymru yn cyfrannu'n sylweddol at y canlyniadau hyn.

Dyma ein gweledigaeth:

Sicrhau bod pobl â chyflwr niwrolegol yng Nghymru yn cael gofal o ansawdd uchel:

- waeth ble maen nhw'n byw
- beth bynnag fo'u cyflwr niwrolegol
- heb unrhyw ragfarn mewn perthynas â'u sefyllfa bersonol

4. Pam mae hyn yn flaenoriaeth?

Mae rhesymau da dros wneud cyflyrau niwrolegol yn faes blaenoriaeth allweddol i GIG Cymru.

Mae cyflyrau niwrolegol yn amrywio o rai cymharol gyffredin i rai prin, megis clefydau *mitochondrial* neu glefyd Wilson, ac o'u hystyried i gyd gallant effeithio ar lawer o bobol. Er enghraifft, mae wyth miliwn o bobl yn y DU yn cael meigrin ac mae epilepsi ar oddeutu hanner miliwn. Gyda'i gilydd, mae tua 10 miliwn o bobl o bob oed ar draws y DU â chyflwr niwrolegol. Cyflyrau niwrolegol sydd i gyfrif am hyd at 20% o dderbyniadau aciwt i ysbytai, a dyma'r trydydd rheswm mwyaf cyffredin dros weld meddyg teulu². Mae tua 17 o bobl y flwyddyn mewn poblogaeth o 100,000 yn debygol o gael diagnosis newydd ar gyfer clefyd Parkinson, a dau o bobl mewn poblogaeth o 100,000 yn dioddef anaf trawmatig i'r asgwrn cefn bob blwyddyn. Amcangyfrifir bod 350,000 o bobl ledled y DU angen help gyda bywyd bob dydd oherwydd cyflwr niwrolegol ac mae 850,000 o bobl yn gofalu am rywun â chyflwr niwrolegol.³

Bob blwyddyn, mae tua 200,000 o bobl yn y DU yn cael eu derbyn i'r ysbyty gydag anaf i'r pen. Bydd un rhan o bump o'r rhain yn dangos nodweddion sy'n awgrymu torri'r penglog neu dystiolaeth o niwed i'r ymennydd⁴.

Amcangyfrifir bod mwy na 500,000 o bobl yng Nghymru wedi'u heffeithio gan gyflwr niwrolegol ac o'r rhain, bydd gan 100,000 gyflwr niwrolegol hirdymor (LTNC). Gall LTNC ddeillio o glefyd, anaf neu niwed i system nerfol y corff (h.y. yr ymennydd, madruddyn y cefn a/neu eu cysylltiadau nerfol perifferol) a fydd yn effeithio ar yr unigolyn a'u teulu mewn rhyw ffordd neu'i gilydd dros weddill eu hoes.

² Long Term (Neurological) Conditions NSF, DH

³ Neuro Numbers, Neurological Alliance www.neural.org.uk/store/assets/files/20/original/NeuroNumbers.pdf

⁴ NICE Clinical Guideline CG176 Head Injury, <http://guidance.nice.org.uk/CG176>

Amcangyfrifwyd y bydd gan 2-3% o'r boblogaeth o blant rywfaint o lefelau anabledd sy'n arwain at anghenion iechyd ac addysg ychwanegol. Mae'r mwyafrif llethol o anableddau plant yn niwrolegol yn eu hanfod ac epilepsi mewn plant yw'r anhwylder niwrolegol mwyaf cyffredin sy'n effeithio ar oddeutu 0.7% o'r holl boblogaeth plant⁵.

Gellir categorio cyflyrau niwrolegol* yn fras fel a ganlyn:

- **cyflyrau sy'n dechrau'n sydyn**, er enghraifft anaf i'r ymennydd neu fadrudyn y cefn, wedi'i ddilyn gan adferiad rhannol. (Ymdrinnir â strôc yn y Cynllun Cyflawni ar gyfer Strôc⁶);
- **cyflyrau ysbeidiol anrhagweladwy**, er enghraifft epilepsi, mathau penodol o gur pen neu sglerosis ymledol cynnar, lle mae dirywiad a gwellhad dros dro yn golygu bod y gofal sydd ei angen yn amrywio'n fawr;
- **cyflyrau sy'n gwaethygu**, er enghraifft clefyd niwronau motor, clefyd Parkinson neu gamau diweddarach sglerosis ymledol, pan fo dirywiad cynyddol yn y gweithrediad niwrolegol. Mewn rhai cyflyrau (e.e. clefyd niwronau motor) gall y dirywiad fod yn sydyn.
- **cyflyrau niwrolegol sefydlog**, ond gydag anghenion sy'n newid wrth i'r claf heneiddio, er enghraifft, syndrom ôl-polio neu barlys yr ymennydd mewn oedolion
- **cyflyrau niwrolegol datblygiadol a genedigol**, er enghraifft parlys yr ymennydd, spina bifida neu ddystroffi'r cyhyrau Duchenne, a all fod yn bresennol ar enedigaeth neu ddatblygu yn ystod plentyndod cynnar. Gall rhai o'r rhain fod yn gysylltiedig â graddau amrywiol o anabledd dysgu.

Roedd adroddiad ar y cyd gan Gymdeithas Niwrolegwyr Prydain a Choleg Brenhinol y Ffisigwyr (2010) yn amlinellu'r prif broblemau yngl n â'r ffordd y mae gwasanaethau niwrolegol yn cael eu darparu ar draws y DU ar hyn o bryd. Cafodd y pryder hwn ei gadarnhau a'i bwysleisio mewn adroddiadau annibynnol manwl gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol (2011) a Phwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y DU (2012) a ddisgrifiai'r diffyg arbenigedd niwrolegol mewn ysbytai ac yn y gymuned, a'r gwahaniaethau helaeth o ran hygyrchedd gwasanaethau.

Er gwaethaf anghenion cymhleth pobl â chyflyrau niwrolegol (iechyd, gofal cymdeithasol, cyflogaeth, gwasanaethau budd-daliadau, cludiant, tai ac addysg), cytunai'r tri adroddiad fod gofal i unigolion wedi'i gydgylltu'n wael, ac yn aml, roedd diffyg integreiddio rhwng gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol.

Yn ogystal â chael eu hasesu'n gyflym a derbyn y driniaeth orau bosibl, mae pobl hefyd angen cymorth parhaus a gwybodaeth yngl n â dewisiadau pan na fydd triniaeth yn effeithiol mwyach. Mae'n rhaid i'r GIG allu egluro beth yw'r opsiynau a'u goblygiadau i'r unigolyn a'i deulu ar ddiwedd oes. Gan weithio gyda'i bartneriaid, mae'n rhaid i GIG Cymru ymrwymo i arwain y gwaith o gyflawni hyn ar bob cam o daith y claf.

* nid yw'r rhestr hon yn cynnwys yr holl gyflyrau niwrolegol a gwmpasir gan y cynllun hwn.

⁵ Service Specification Paediatric Neurosciences: Neurology, NHS England www.england.nhs.uk/wp-content/.../06/e09-paedi-neurology.pdf

⁶ Law yn Llaw at Iechyd: Cynllun Cyflawni ar gyfer Strôc, Llywodraeth Cymru <http://cymru.gov.uk/topics/health/publications/health/reports/plan/?skip=1&lang=cy>

Ni ddylai unigolion â chyflwr niwrolegol gydag anabledd dysgu sy'n cydfodoli fod o dan anfantais rhag cael asesiad, triniaeth a chymorth o ansawdd uchel i'w helpu gyda'u problemau iechyd, Yn aml bydd angen mwy o amser yn wir, a mwy o sgiliau arbenigol ac adnoddau er mwyn iddynt allu cael diagnosis eglur ac ymyriadau priodol a sensitif i'w hanghenion penodol.

Ar gyfer pob cyflwr, rhaid canolbwyntio ar ddiagnosis, triniaeth a chymorth yn y tymor hwy i bobl â chyflyrau niwrolegol. I rai pobl â chyflwr niwrolegol, byddai'n briodol cyfeirio hefyd at y *Cynllun Cyflawni ar gyfer Cyflawni Gofal Diwedd Oes*.

5. Ein taith hyd yma

Mae llawer eisoes wedi'i gyflawni yng Nghymru, ond mae rhagor i'w wneud eto. Yn dilyn canlyniad yr Adolygiad ar Niwrowyddorau i Oedolion yn 2008, datblygodd byrddau iechyd ddau gynllun gweithredu, un ar gyfer Gogledd Cymru ac un ar gyfer Canolbarth a De Cymru, a dechreuodd y gwaith o'u cyflwyno yn hydref 2009. O ganlyniad i'w weithredu, mae gwasanaethau fel niwroleg a niwroadsefydlu yn cael eu darparu'n fwy lleol i gleifion. Bydd hyn yn cyfyngu'n helaeth ar yr angen i gleifion deithio ac yn y pen draw, yn helpu i wella eu hiechyd ac ansawdd eu bywydau.

Yn y Gogledd, mae rhwydwaith niwrowyddorau wedi'i sefydlu i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel gan integreiddio gwelliant parhaus o fewn y gwaith o ddydd i ddydd. Mae angen defnyddio arbenigedd a chanfyddiadau gwaith y grŵp hwn i lywio gwaith y grŵp gweithredu ar gyflyrau niwrolegol a'u rhannu'n briodol fel arfer gorau.

Yn 2009, cyhoeddodd y grŵp gorchwyl a gorffen ar lwybrau gofal ar gyfer cyflyrau niwrolegol hirdymor ei adroddiad a'i argymhellion. Cefnogai set o egwyddorion generig ar gyfer datblygu gwasanaethau i gynorthwyo pobl â chyflyrau niwrolegol hirdymor. Yn sgil hynny, cyhoeddwyd nifer o lwybrau gofal ar gyfer cyflyrau niwrolegol yn cynnwys epilepsi, clefyd niwronau motor, dystroffi'r cyhyrau, clefyd Parkinson ac anaf i'r ymennydd.

Roedd *Safonau Niwrowyddorau Cymru Gyfan ar gyfer Gofal Iechyd Arbenigol i Blant a Phobl Ifanc*, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2009, yn nodi safonau gofal a nifer o gamau gweithredu allweddol.

Gwnaed cryn dipyn o waith ledled Cymru ar weithredu argymhellion y *Grŵp Trawsbleidiol ar Ddystroffi'r Cyhyrau: Mynediad at Ofal Niwrogyhyrol Arbenigol yng Nghymru* (Adroddiad Thomas). Ymhlith y datblygiadau pwysig, mae sefydlu Rhwydwaith Niwrogyhyrol Cymru, penodi cynghorwyr gofal teulu a gwelliannau mewn ffisiotherapi yn enwedig ar gyfer oedolion ifanc.

6. Beth rydym am ei gyflawni?

Bydd y *Cynllun Cyflawni ar gyfer Cyflyrau Niwrolegol* hwn, a'r grŵp gweithredu newydd, yn sbarduno byrddau iechyd, ymddiriedolaethau, llywodraeth leol a'r trydydd sector a'r sector annibynnol i ganolbwyntio ar y cyd ar weithredu pellach er mwyn diwallu anghenion pobl â chyflwr niwrolegol.

I lawer o bobl sy'n byw gyda chyflwr niwrolegol y prif fater yw gwella ansawdd eu bywydau. Lluniwyd y cynllun cyflawni hwn i roi gwasanaethau, gofal a chymorth ar waith er mwyn hyrwyddo hunanofal, gan gynorthwyo pobl i reoli eu symptomau a byw mor annibynnol â phosibl. Nid yw'r cynllun yn mynd i'r afael â chyflyrau niwrolegol unigol gan fod cymaint o elfennau o'r gwasanaeth yn gyffredin i'r gwahanol gyflyrau.

Thema gyflawni un: Codi Ymwybyddiaeth o Gyflyrau Niwrolegol

Ymwybyddiaeth gynyddol o gyflyrau niwrolegol a'u symptomau.

Mae diagnosis neu ddechrau cyflwr niwrolegol hirdymor fel arfer yn gychwyn ar newidiadau enfawr ym mywyd yr unigolyn a bywydau ei deulu a'i ffrindiau. Gall effeithio ar berthynas pobl â'i gilydd, rhagolygon gyrfa, incwm a disgwyliadau ar gyfer y dyfodol.

Bydd profiad pawb o fyw gyda chyflwr niwrolegol yn wahanol ond mae llawer o faterion a heriau'n gyffredin i lawer o'r bobl sy'n byw gyda'r cyflwr. I bobl â chyflyrau niwrolegol, bydd diffyg ymwybyddiaeth gyhoeddus a phroffesiynol o'r cyflwr yn aml yn arwain at stigma a gwahaniaethu. Tynnwyd sylw at hyn yn adroddiad y grŵp trawsbleidiol ar niwrowyddorau – Ymchwiliad i Ddeall Cyflyrau Niwrolegol mewn Unedau Achosion Brys .

At ei gilydd, nid yw pobl yn deall pa mor gyffredin yw'r cyflyrau nac yn deall eu heriau na'u heffaith. Felly, mae angen codi ymwybyddiaeth y cyhoedd o gyflyrau niwrolegol er mwyn lleihau eu stigma a chael gwared ar wahaniaethu. Mae llawer o bobl â chyflwr niwrolegol yn poeni beth fydd eraill yn ei feddwl ac felly'n ceisio cuddio'u cyflwr. Bydd deall eu salwch a chymryd camau i reoli eu cyflwr eu hunain yn cynyddu'r posibilrwydd y gall unigolyn gynnal ei annibyniaeth. Yn ogystal ag addysgu unigolion, bydd ymgyrchoedd i godi ymwybyddiaeth gyhoeddus ac addysgu darparwyr iechyd yn gwella dealltwriaeth o'r cyflyrau, gan ddileu'r stigma sy'n gysylltiedig â nhw.

Dylid sicrhau hefyd bod y cyhoedd yn ymwybodol o unrhyw gamau gweithredu ataliol perthnasol y gallant eu cymryd, megis ffyrdd o osgoi neu leihau damweiniau, neu gymryd asid ffolig wrth geisio cenhedlu plentyn ac am y 12 wythnos cyntaf ar ôl cenhedlu er mwyn lleihau'r risg o namau ar y tiwb nerfol megis spina bifida.

Ni ellir gwneud gwahaniaeth heb weithio mewn partneriaeth rhwng Llywodraeth Cymru, y GIG, awdurdodau lleol (gyda phwyslais arbennig ar addysg, y gwasanaethau cymdeithasol, adrannau tai a hamdden), y trydydd sector ac eraill.

Disgwyliadau ar gyfer cyflawni

1. Dylai pob aelod o staff sy'n ymwneud â rheoli gofal pobl â chyflwr niwrolegol fod â'r ddealltwriaeth briodol o'r cyflwr a'i effeithiau ar yr unigolyn a'i deulu gan gynnwys dealltwriaeth o rolau, ymyriadau a'r hyn a ddisgwylir gan wasanaethau lleol a rhanbarthol.

2. Gwella dealltwriaeth o gyflyrau niwrolegol ymhlith y cyhoedd a sefydliadau eraill, er enghraifft sefydliadau addysgol.

Blaenoriaethau penodol 2013-2017

1. Gweithio gydag ystod eang o bartneriaid (yn cynnwys byrddau gwasanaethau lleol, sefydliadau addysgol a'r trydydd sector) i:
Godi ymwybyddiaeth o gyflyrau niwrolegol
Cyfeirio at ffynonellau gwybodaeth, cyngor a chymorth sydd ar gael
2. Darparu sesiynau addysgu/hyfforddi/diweddarau ar gyfer meddygon teulu, nyrsys practis a staff sy'n ymwneud â rheoli pobl â chyflyrau niwrolegol er mwyn cefnogi gwell dealltwriaeth o gyflyrau niwrolegol
3. Sicrhau bod pob gweithiwr iechyd proffesiynol yn cydnabod pwysigrwydd cefnogi unigolion a theluedd sy'n cael diagnosis mewn modd clir a gwrthrychol a'u hyfforddi i wneud hynny
4. Dylai Iechyd Cyhoeddus Cymru, mewn partneriaeth â byrddau iechyd, gynnal ymgyrch genedlaethol i godi ymwybyddiaeth trwy fferyllfeydd cymunedol yng Nghymru

Cyfrifoldeb am ddatblygu a chymryd camau

Byrddau iechyd, yn gweithio gyda phartneriaid, gydag arweiniad cenedlaethol gan Iechyd Cyhoeddus Cymru

Mesurau sicrwydd posibl

Canran y boblogaeth sydd ag ymwybyddiaeth o gyflyrau niwrolegol

(Ffynhonnell: i'w datblygu trwy arolwg cleifion neu bolau piniwn)

Thema gyflawni dau: Gwneud diagnosis amserol o gyflyrau niwrolegol

Caiff cyflyrau niwrolegol eu canfod yn gyflym, er mwyn i gleifion allu symud ymlaen i gael gofal a thriniaeth amserol

Mae canllawiau cenedlaethol yn nodi disgwyliadau Llywodraeth Cymru yngl n â gofal effeithiol i bobl â chyflwr niwrolegol. Mae'r rhain yn cynnwys canllawiau'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE) a'r Fframwaith Ansawdd a Chanlyniadau ar gyfer Meddygon Teulu, llwybrau gofal a dogfennau eraill megis safonau proffesiynol neu gyhoeddiadau megis cyfarwyddebau datblygu gwasanaethau. Dylid datblygu gwasanaethau a'u darparu yn unol â'r canllawiau perthnasol ar gyfer pob cyflwr.

Fel arfer, y pwynt cyntaf yn llwybr y claf i rywun â symptomau niwrolegol yw ymweld â'i feddyg teulu. Yn aml, gall cyflyrau niwrolegol fod yn her am fod modd camgymryd

symptomau am gyflyrau eraill mwy cyffredin, gan arwain at gamddiagnosis cyn gwneud atgyfeiriad terfynol at arbenigwr. Bydd addysg sylfaenol i feddygon teulu ac aelodau eraill o'r tîm gofal sylfaenol yn gwella eu gwybodaeth a'u hymwybyddiaeth o gyflyrau niwrolegol gan leihau oedi posibl wrth atgyfeirio.

Mae disgwyl i bob meddyg teulu allu gwneud defnydd uniongyrchol o ystod o brofion a gweithdrefnau diagnostig ar gyfer pobl a allai fod yn dioddef o gyflwr niwrolegol. Mae hyn yn cynnwys defnydd o archwiliadau niwrowyddonol, er enghraifft sganiau CT ac MRI ac astudiaethau dargludiad nerfol (NCS) lle bo'n briodol. Mae hefyd yn cynnwys gallu dod o hyd i gyngor niwrolegol arbenigol o fewn 24 awr dros y ffôn neu drwy gyswllt e-bost ac asesiad gan aelodau'r tîm amlddisgyblaeth.

Gall unigolion a'u teuluoedd brofi cryn ofid a phryder wrth aros am ddiagnosis. Gall diagnosis cynnar leihau hyn ac arwain at driniaeth gynt a rheolaeth effeithiol.

Dylai pobl y mae aelodau o'u teulu wedi etifeddu cyflyrau niwrolegol allu derbyn cyngor a phroffion genetig priodol. Dylid cynnig cwnsela i'r unigolyn a'i deulu, ynghyd â niwroseicoleg/seiciatreg a gwybodaeth am oblygiadau eu cyflwr er mwyn iddynt allu gwneud penderfyniadau gwybodus ynglŷn â phroffion, triniaeth a dewisiadau eraill sy'n ymwneud â'u bywydau.

Disgwyliadau o ran cyflawni

1. Darparu cyngor niwrolegol arbenigol a phroffion diagnostig amserol a phriodol
2. Cyfeirio ymlaen yn amserol a phriodol at arbenigwyr clinigol
3. Gwell dealltwriaeth o symptomau a gofal niwrolegol ymysg y meddygon teulu.

Blaenoriaethau penodol 2013-2017

1. Gwella'r drefn i feddygon teulu allu gwneud defnydd uniongyrchol amserol o archwiliadau CT/MRI, heb fod angen atgyfeirio eilaidd, lle bo'n briodol ac yn unol â phrotocolau diagnostig a gytunwyd
2. Galluogi meddygon teulu i gael cyngor niwrolegol arbenigol amserol drwy drefniant strwythuredig ar gyfer ffonio a chyswllt e-bost, gan gyflymu diagnosis i bobl na fydd angen eu hatgyfeirio i glinig o bosibl
3. Sicrhau mynediad amserol i asesiad amlddisgyblaeth er mwyn cefnogi diagnosis lle bo angen
4. Codi ymwybyddiaeth meddygon teulu o symptomau niwrolegol a sicrhau drwy drefniadau archwilio fod pobl yn cael eu hatgyfeirio at ofal eilaidd a thrydyddol yn unol â chanllawiau cenedlaethol a phrotocolau a llwybrau atgyfeirio, lle maent ar gael. Dylid datblygu protocolau atgyfeirio os nad oes rhai ar gael.
5. Darparu cyngor niwrolegol arbenigol o fewn 24 awr (saith diwrnod yr wythnos) i gleifion sy'n cael eu derbyn i'r ysbyty gyda chyflwr niwrolegol sylfaenol neu amheuaeth o gyflwr o'r fath – gan ad-drefnu'r ddarpariaeth er mwyn cyflawni hyn lle bo angen

6. Sicrhau bod cleifion yn cael mynediad cyflym at wasanaethau brys sydd ag arbenigedd clinigol ar gyfer cleifion allanol, er mwyn ateb anghenion meddygon teulu a chleifion
7. Sicrhau ôl-driniaeth briodol ac amserol i gleifion
8. Creu amser o fewn y cynlluniau gwaith presennol er mwyn cyflawni'r uchod

Cyfrifoldeb am ddatblygu a chymryd camau

Byrddau iechyd a Phwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru

Mesurau sicrwydd posibl

Cyfradd methu diagnosis neu oedi cyn cael diagnosis (drwy dystiolaeth digwyddiadau niweidiol difrifol neu gwynion cleifion)

Thema gyflawni tri: Gofal cyflym ac effeithiol

Dylai pobl â chyflwr niwrolegol dderbyn gofal a thriniaeth gyflym ac effeithiol.

Mae tua un o bob saith ymgynghoriad gofal sylfaenol ar gyfer rhyw fath o symptom sy'n gysylltiedig â'r system nerfol a hyd at un o bob pump claf brys sy'n cael ei dderbyn i ysbyty yn dioddef o broblem niwrolegol⁷. Mae atgyfeiriadau niwroleg allanol hefyd ar gynydd ac efallai na fydd pobl yn derbyn diagnosis am sawl mis ar ôl eu hymweliad cyntaf â'u meddyg teulu. Ar ôl cael diagnosis, mae cymorth yn y gymuned yn amrywio, a llawer o bobl yn cael eu gadael i deimlo'n unig ar ôl cael gwybod bod eu cyflwr yn "hirdymor" a gyda nhw am weddill eu hoes.

Bydd angen i rai cleifion â chyflwr niwrolegol fynd i'r ysbyty am ran o'u triniaeth, er mai'r gobaith yw gallu darparu holl driniaeth cyfran gynyddol o gleifion o fewn gofal sylfaenol a chymunedol. O fewn sefydliadau aciwt a gofal sylfaenol, dylid cydgysylltu gwasanaethau ysbytai drwy gyfathrebu a throsglwyddo'n rhagorol ar draws ffiniau. Dylid darparu gwasanaethau amserol gan ganolbwyntio ar sicrhau profiadau cadarnhaol i gleifion.

Mae fframwaith manwl ar gyfer darparu gwasanaethau niwrowyddoniaeth o ansawdd uchel ar sail tystiolaeth drwy dimau amlddisgyblaethol wedi'u trefnu'n dda i'w gweld yn y canllawiau cenedlaethol, er enghraifft canllawiau a llwybrau gofal y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE). Bydd cydymffurfio â fframweithiau o'r fath yn ganolog i gyflawni'r Cynllun hwn.

Yn gyffredinol, mae niferoedd arbenigwyr niwrolegol, boed yn glinigwyr, gwyddonwyr gofal iechyd, nyrsys neu therapyddion, yn parhau'n isel. Ond yn aml, hefyd, ni fydd

⁷ Action on Neurology, NHS Institute for Innovation and Improvement
www.institute.nhs.uk/index.php?option=com_joomcart&main_page=document_product_info&products_id=222&cPath=67

gwasanaethau niwrolegol wedi'u trefnu mewn ffordd a allai fod yn ymatebol i anghenion cleifion neu sy'n gwneud y defnydd gorau o adnoddau. Er bod cynyddu adnoddau'n bwysig, mae'n amlwg fod angen defnyddio'r adnoddau hyn yn wahanol i'r ffordd y cânt eu defnyddio ar hyn o bryd.

Dylai byrddau iechyd, gan weithio gyda Phwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru, sicrhau bod gwasanaethau niwrowyddonol arbenigol yn cael eu cynllunio a'u trefnu mewn ffordd sy'n sicrhau gofal amlddisgyblaethol a chanlyniadau o'r safon uchaf. Dylai'r GIG gynorthwyo cleifion a theuluoedd gyda threfniadau teithio a llety yn unol â phrotocol Cymru ar gyfer cludo cleifion mewn achosion nad ydynt yn rhai brys.

Ni cheir model sengl ar gyfer y gwasanaethau niwrowyddoniaeth gan eu bod oll yn gwasanaethu cymunedau gwahanol a gwahanol gleifion, felly efallai na fydd yr hyn sy'n gweithio mewn un sefydliad neu gymuned iechyd yn gweithio mewn un arall. Yr hyn sy'n bwysig yw'r egwyddorion sy'n sail i newid a gweld sut y gellid trosi newid mewn un sefydliad ar gyfer sefydliad arall.

Bydd llawer o bobl yn rheoli eu cyflwr niwrolegol, nid er mwyn sicrhau adferiad, ond yn hytrach, er mwyn oedi a/neu leihau effeithiau'r dirywiad anochel o ystyried natur ddirywiol y cyflwr. Mae angen darparu gwasanaethau ar gyfer rheoli'r broses hon mor effeithiol â phosibl gydag urddas a hunanbenderfyniad.

Mae pobl yng nghamau diweddarach cyflyrau niwrolegol hirdymor yn cael gofal lliniarol a gofal diwedd oes cydgysylltiedig, effeithiol a thosturiol pan fo'u hangen i reoli symptomau, lliniaru poen a diwallu eu hanghenion am gymorth personol, cymdeithasol, seicolegol ac ysbrydol, yn unol â'r *Cynllun Cyflawni ar gyfer Cyflawni Gofal Diwedd Oes*.

Dylai safbwyntiau cleifion ar ganlyniadau eu gofal fod yn adnodd pwysig wrth ddatblygu gwasanaethau priodol ar gyfer y dyfodol. Mae mesurau canlyniadau a adroddwyd gan gleifion (PROMs) yn casglu gwybodaeth am effeithiolrwydd y gofal a ddarperir i gleifion gan y cleifion eu hunain. Bydd y cynllun hwn yn cynnwys y gofyniad i sefydlu a gweithredu holiadur PROMs ar gyfer pobl â chyflyrau niwrolegol i ategu'r nod hwn.

Disgwyliadau o ran cyflawni

1. Triniaeth a gofal clinigol a chost-effeithiol amserol a phriodol i bob claf yn unol â'r dystiolaeth ddiweddaraf a safonau a chanllawiau cenedlaethol
2. Asesiad gan arbenigwr fel sy'n briodol o fewn 24 awr ar gyfer pob claf a gaiff ei dderbyn i ysbyty oherwydd cyflwr sylfaenol neu amheuaeth o gyflwr niwrolegol
3. Derbyn cleifion sydd i'w hasesu yn yr ysbyty i welyau niwrolegol arbenigol
4. Trosglwyddo gofal yn ddi-dor o'r gwasanaethau pediatrig i'r gwasanaethau niwrolegol i oedolion drwy raglenni trosglwyddo personol cydgysylltiedig

5. Trosglwyddo cleifion sydd angen y gwasanaethau hynny at wasanaethau lliniarol a diwedd oes amserol
6. Cofnodi safbwyntiau cleifion ar effeithiolrwydd y gofal a dderbyniwyd ganddynt, a gweithredu ar hynny, wrth ddatblygu modelau gwasanaeth niwrolegol

Blaenoriaethau penodol 2013-2017

1. Trefnu gwasanaethau i sicrhau bod pobl sy'n cael eu derbyn â chyflwr niwrolegol yn cael eu hasesu gan niwrolegydd neu niwrolawfeddyg ymgynghorol fel sy'n briodol o fewn 24 i gael eu derbyn i'r ysbyty oherwydd cyflwr sylfaenol niwrolegol
2. Adolygu, cynllunio a darparu triniaeth amserol ar sail tystiolaeth, yn unol â'r dystiolaeth, y safonau a'r canllawiau diweddaraf;
3. Sicrhau bod cleifion ag anghenion cymhleth yn derbyn gwasanaethau arbenigol eraill priodol, amserol a chydgyssylltiedig fel y bo'n briodol
4. Sicrhau ymyriadau priodol amserol a theg, yn cynnwys gweithdrefnau diagnostig, technolegau, triniaethau a thechnegau newydd, yn unol â'r dystiolaeth a'r canllawiau diweddaraf, gyda pholisïau a blaenoriaethau ar sail tystiolaeth a gytunwyd gan GIG Cymru
5. Cydgysylltu prosesau trosglwyddo gofal yn effeithiol a dychwelyd cleifion yn amserol o welyau niwrolegol arbenigol i ysbytai lleol cyn gynted ag y bo'n addas yn glinigol ar ôl triniaeth yn unol â chynlluniau trosglwyddo gofal a pholisi Cymru ar dychwelyd cleifion
6. Sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu trefnu mewn modd a fydd yn ei gwneud hi'n bosibl trosglwyddo gofal yn ddi-dor o wasanaethau pediatreg i wasanaethau oedolion.
7. Sicrhau bod cleifion sydd angen y gwasanaethau hynny'n cael eu trosglwyddo'n effeithiol i ofal lliniarol a gofal diwedd oes priodol yn unol â'r *Cynllun Cyflawni ar gyfer Gofal Diwedd Oes*
8. Datblygu a gweithredu holiadur PROMs ar gyfer cleifion â chyflyrau niwrolegol

Cyfrifoldeb am ddatblygu a chymryd camau

Byrddau Iechyd a Phwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru

Mesurau sicrwydd posibl

Ansawdd gofal cleifion niwrolegol

Nifer derbyniadau heb eu trefnu i'r ysbyty oherwydd cyflwr sylfaenol niwrolegol

Nifer achosion o oedi wrth ryddhau o'r ysbyty oherwydd diffyg gwasanaethau cymunedol priodol

(Ffynhonnell: i'w datblygu trwy arolwg cleifion)

Thema gyflawni pedwar: Byw gyda chyflwr niwrolegol

Naill ai yn y gymuned neu yn yr ysbyty, mae gofal yn canolbwyntio ar yr unigolyn a'i anghenion unigol yn cael eu nodi a'u diwallu er mwyn iddo deimlo'i fod yn cael digon o gymorth a gwybodaeth i allu rheoli effeithiau ei gyflwr niwrolegol

Yn aml, mae pobl â chyflyrau niwrolegol angen ystod eang o wasanaethau i ddiwallu eu hanghenion cymdeithasol, seicolegol a chorfforol parhaus. Mae angen i wasanaethau fod yn gydgyssylltiedig er mwyn osgoi dyblygu neu fylchau yn y ddarpariaeth ac i sicrhau bod sefydliadau unigol a gweithwyr proffesiynol yn gwybod pwy arall sy'n ymwneud â'r gofal. Waeth pa fath o gymorth sydd ei angen, gall y ffordd y caiff ei ddarparu effeithio'n fawr ar fywyd yr unigolyn.

Mae defnyddio meddyginiaethau'n effeithiol yn hanfodol er mwyn rheoli llawer o gyflyrau niwrolegol hirdymor, yn enwedig clefyd Parkinson ac epilepsi. Mae'n bwysig sicrhau y gall pobl â chyflwr niwrolegol sy'n cael eu derbyn i'r ysbyty dderbyn eu meddyginiaeth ar yr amser cywir. Efallai hefyd y bydd pobl angen cyngor a chymorth i reoli sgil-ffeithiau neu os ydynt yn ystyried rhoi'r gorau i driniaeth, a dylent gael cyfle i drafod hyn gyda'u gweithiwr iechyd proffesiynol. Mae'n bwysig adolygu meddyginiaethau'n rheolaidd .

Dylai pobl allu derbyn gwasanaethau sy'n hyrwyddo byw'n iach ac yn atal cymhlethdodau, er enghraifft y cynllun cenedlaethol i atgyfeirio cleifion i wneud ymarfer corff, canllawiau ar atal damweiniau; byw'n iach, maeth a hunanofal i leihau afiechyd. Hefyd dylid sicrhau eu bod yn ymwybodol o sefydliadau'r trydydd sector sy'n gallu cynnig cefnogaeth a chyngor arbenigol. Dylai pobl â chyflwr niwrolegol a fyddai'n elwa ar gael ffisiotherapi allu cyfeirio eu hunain at wasanaethau ffisiotherapi lleol.

Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi pwyslais ar bwysigrwydd canolog gofal GIG sylfaenol a chymunedol ac yn amlinellu'r ymagwedd hon yn y ddogfen bolisi *Gosod y Cyfeiriad* (Llywodraeth Cymru, 2010) a *Darparu Gofal Iechyd Lleol – sbarduno newid* (2013). Mae angen i brif feysydd ailgynllunio gwasanaeth fynd i'r afael â ffyrdd o wella gofal yn y gymuned i gleifion â chyflyrau niwrolegol er mwyn lleihau'r nifer uchel o dderbyniadau brys i ysbytai ledled Cymru. Mae datblygu rhwydweithiau lleol amlsector a thimau adnoddau cymunedol yn rhan bwysig o'r gwaith o wella gofal. Dylid ystyried ymgorffori datblygiadau newydd ym maes telefeddygaeth ar gyfer gweld cleifion ac adolygu triniaethau, yn enwedig ar gyfer pobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig.

Mae angen cydgysylltu'r broses o gynllunio gofal er mwyn sicrhau bod yr unigolyn yn derbyn y gofal cywir ar yr adeg iawn yn y lleoliad mwyaf priodol i'w alluogi i fyw mor annibynnol â phosibl. Mae hyn yn galw am ddull gweithredu integredig ac amlddisgyblaethol er mwyn sicrhau bod triniaeth yr unigolyn a'i anghenion cymorth, er enghraifft mynediad at wybodaeth, yn cael eu hasesu, eu cofnodi a'u diwallu. Dylid cynhyrchu cynlluniau gofal personol drwy gydweithio gyda'r unigolion a dylent ystyried elfennau cyd-forbidrwydd. Dylai'r dull hwn o weithredu gan y gweithiwr proffesiynol arweiniol priodol (mewn gofal sylfaenol neu eilaidd), hwyluso'r broses o drosglwyddo cleifion rhwng gwasanaethau a gwella cyfathrebu rhwng y GIG a'r

gwasanaethau cymdeithasol. Mae'n hollbwysig bod y cynlluniau gofal ar gael yn hawdd i bawb sy'n ymwneud â gofal yr unigolyn.

Mae gwasanaeth niwroadsefydlu ymatebol ac effeithlon, sy'n cael ei ddarparu mor lleol â phosibl, yn hanfodol a dylid ei ystyried a'i gynnig i bawb a fyddai'n elwa ohono. Mae gorbryder ac iselder yn gyffredin mewn cyflyrau cronig a chyflyrau niwrolegol yn arbennig, a gallant amharu ar ansawdd bywyd. Dylid darparu cymorth a thriniaeth niwroseicolegol a niwroseiciatrig priodol i gleifion â symptomau niwrolegol gweithredol ac i rai sy'n dioddef o orbryder, iselder ac anhwylderau iechyd meddwl eraill sy'n aml yn rhan o'r cyflwr niwrolegol neu'n effaith eilaidd. Mae gwasanaethau ystum corff a symudedd yn allweddol hefyd o ran cynnal gallu nifer helaeth o bobl â chyflwr niwrolegol i fyw'n annibynnol.

Mae gan y trydydd sector ran bwysig i'w chwarae o ran darparu gwasanaethau adsefydlu a chefnogi sgiliau byw'n annibynnol ac maent wedi datblygu ystod eang o wasanaethau mewn partneriaeth â sefydliadau iechyd a gofal cymdeithasol i wella mynediad at wasanaethau adsefydlu a ffurfiau eraill ar gymorth. Dylai byrddau iechyd weithio'n ddyfal gyda'r trydydd sector, gan eu cynnwys yn y gwaith o gynllunio gwasanaethau er mwyn darparu gwasanaeth gofal niwrowyddonol integredig.

Yn aml, mae aelodau teuluol a ffrindiau sy'n cynorthwyo ac yn gofalu am bobl â chyflyrau niwrolegol hirdymor yn allweddol i gynnydd, lles ac ansawdd bywyd yr unigolyn. Mae'r rhan fwyaf yn dewis gwneud y gwaith o wirfodd, ond mae'n bwysig bod gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn eu galluogi i wneud dewisiadau, yn eu cynorthwyo'n effeithiol ac yn diogelu eu hiechyd a'u hannibyniaeth.

Bydd y *Fframwaith ar gyfer Hunanofal*, sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd, yn cynnwys camau gweithredu i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd a gweithwyr proffesiynol o'r wybodaeth, y cymorth a'r cyngor sydd ar gael yn genedlaethol ac yn y gymuned leol i unigolion, eu teuluoedd a'u ffrindiau. Bydd yn adeiladu ar y rhaglenni addysg sydd ar gael ar hyn o bryd, er enghraifft rhaglen addysgu cleifion Iechyd Cyhoeddus Cymru, a luniwyd i roi hyder i bobl allu rheoli eu cyflyrau iechyd hirdymor.

Gall cyd-gynhyrchu fod yn ddull cryf ac effeithiol o ddatblygu gwasanaethau sy'n adlewyrchu anghenion y defnyddwyr gwasanaethau a'r grŵp ehangach o ddatblygwyr a chyflenwyr gwasanaethau. Yn sgil y cynllun hwn, dylai Llywodraeth Cymru ynghyd â'r Grŵp Gweithredu, Llywodraeth Leol a'r trydydd sector ystyried opsiynau er mwyn datblygu a sefydlu prosiect cydgynhyrchiol o wasanaethau ar gyfer cyflyrau niwrolegol, yn seiliedig ar egwyddorion gofal iechyd darbodus.

Disgwyliadau o ran cyflawni

1. Mae pobl yn derbyn gwybodaeth amserol – wedi'i theilwra i'w hanghenion – i sicrhau eu bod yn deall eu cyflwr, beth i edrych allan amdano a pha wasanaeth i ofyn amdano os oes problemau'n codi
2. Mae pobl (ac os yn briodol, eu teulu/gofalwyr) yn cael trafod eu hanghenion a'u dymuniadau clinigol ac anghlinigol perthnasol, sy'n cael eu cofnodi mewn

cynllun gofal holistaidd, ar gyfer ei ddefnyddio'n sail i bob gofal, a'i adolygu'n barhaus

3. Darperir gofal yn y man mwyaf priodol i'r claf, mor agos â phosibl i'w gartref
4. Cynhelir ymyriadau cyffuriau ac ymyriadau eraill amserol, rheolaeth niwroseicolegol a niwroadsefydlu a chyngor/asesiad ar faeth yn ôl angen clinigol y claf
5. Mae pobl yn cael technoleg/cyfarpar cynorthwyol amserol a phriodol, a chaiff eu cartrefi eu haddasu i'w cynorthwyo i fyw'n annibynnol, eu helpu gyda'u gofal, cynnal eu hiechyd a gwella ansawdd eu bywydau
6. Mae llai o bobl â chyflyrau niwrolegol yn cael eu derbyn neu'n dychwelyd i'r ysbyty'n ddiangen neu fel achosion brys
7. Mae profiad pobl o'r GIG, gofal y trydydd sector a'r gwasanaethau cymorth yn integredig a di-dor
8. Caiff pobl eu cynorthwyo i reoli eu cyflwr eu hunain a lle bo'n briodol gallant atgyfeirio eu hunain i wasanaethau ffisiotherapi lleol yn seiliedig ar feini prawf mynediad clir
9. Mae rhai sy'n gofalu am bobl â chyflyrau niwrolegol hirdymor yn cael cymorth a gwasanaethau priodol sy'n cydnabod eu hanghenion, yn eu rôl fel gofalwyr, ac yn eu hawl eu hunain.
10. Dylai pobl gael mynediad teg a chyfartal i wasanaeth hydrotherapi ledled Cymru

Blaenoriaethau penodol 2013-2017

1. Cynllunio a darparu gwasanaethau i ddiwallu anghenion parhaus pobl â chyflyrau niwrolegol mor lleol â phosibl i'w cartref ac mewn modd a luniwyd i gefnogi hunanreoli a byw'n annibynnol. Dylai hyn gynnwys y canlynol, fel y bo'n briodol:
 - Ôl-ofal ar sail tystiolaeth yn y gymuned lle bo'n bosibl
 - Rheolaeth ar gyffuriau a dyfeisiau, gan gynnwys polisi ar hunanweinyddu meddyginiaeth
 - Niwroadsefydlu (yn cynnwys rheolaeth ac ymarfer niwroseicolegol)
 - Gwasanaethau ystum corff a symudedd
 - Canllawiau ar fyw'n iach, cyngor ar faeth, atal damweiniau a hunanofal i leihau afiechyd
2. Asesu anghenion clinigol ac anghlinigol perthnasol pobl sydd wedi cael diagnosis o gyflwr niwrolegol a chofnodi – gyda'r cleifion (a'u teulu/gofalwyr lle bo'n briodol) – anghenion a dymuniadau clinigol ac anghlinigol perthnasol a dewisiadau mewn cynllun gofal. Dylai'r cynllun gofal gynnwys gwybodaeth yngl n â'r hyn y mae'r diagnosis yn ei olygu i'r claf, beth i edrych allan amdano

a pha wasanaethau i ofyn amdanynt pe bai problemau'n digwydd. Dylid ei adolygu ar bwyntiau priodol ar hyd y llwybr

3. Gwneud trefniadau i sicrhau bod y wybodaeth yn y cynllun gofal neu lythyr meddyg teulu ar gael i'r claf ac wedi'i chofnodi ar systemau gwybodaeth clinigol – ac ar gael i eraill sydd â chyfrifoldeb clinigol dros y claf, yn cynnwys gwasanaethau meddygon teulu y tu allan i oriau, ar sail 24/7
4. Darparu rhaglenni arbenigol ar gyfer cleifion a gofalwyr pan fo angen
5. Gweithio'n rhagweithiol gyda gwasanaethau'r trydydd sector a chyfeirio'n effeithiol at wybodaeth a chymorth, i alluogi cleifion i ddod o hyd i wasanaethau cymorth yn hawdd
6. Datblygu prosiect i archwilio'r posibiladau o ran datblygu gwasanaethau niwrowyddoniaeth cydgynhyrchiol
7. Adolygu'r sail dystiolaeth a'r ddarpariaeth hydrotherapi ledled Cymru ar hyn o bryd a datblygu canllawiau Cymru gyfan ar sail tystiolaeth ar gyfer mynediad i'r therapi hwn i gleifion mewnol ac allanol

Cyfrifoldeb am ddatblygu a chymryd camau

Byrddau iechyd, Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru, llywodraeth leol, Llywodraeth Cymru a'r trydydd sector

Mesurau sicrwydd posibl

Canran y bobl a gafodd ddiagnosis o gyflwr niwrolegol sydd â chynllun gofal

Canran y cleifion a'r gofalwyr sy'n fodlon â'u gofal

(Ffynhonnell: i'w datblygu trwy arolwg cleifion)

Thema gyflawni pump: Plant a Phobl Ifanc

Mae plant a phobl ifanc â chyflyrau niwrolegol yn derbyn gofal priodol.

Mae plant a phobl ifanc â chyflyrau niwrolegol difrifol yn cael bywyd o'r ansawdd gorau, trwy ddarparu diagnosis, archwiliadau, ymyriadau, rheolaeth a gwybodaeth ragorol. Mae canllawiau clinigol NICE yn nodi bod sicrhau'r rheolaeth orau yn gwella canlyniadau iechyd a gall hefyd helpu i leihau effeithiau eraill, sy'n aml yn negyddol, ar weithgareddau cymdeithasol, addysgol a chyflogaeth.

Ym mis Gorffennaf 2009, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru'r *Safonau Niwrowyddorau Cymru Gyfan ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Arbenigol i Blant a Phobl Ifanc*. Mae'r ddogfen yn nodi ac yn diffinio safonau gofal niwrowyddorau arbenigol ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru, a sut y dylid darparu'r gwasanaethau hyn. Dylid darllen y *Safonau Niwrowyddorau* law yn llaw â'r *Fframwaith Gwasanaeth*

Cenedlaethol ar gyfer Plant, Pobl Ifanc a Gwasanaethau Mamolaeth yng Nghymru (FfGC Plant), yn arbennig pennod dau, “Camau gweithredu allweddol sy’n berthnasol i bob plentyn”, sy’n berthnasol i bob gwasanaeth a phob plentyn a pherson ifanc.

Mae’r safonau a’r camau gweithredu allweddol yn berthnasol i bob plentyn a pherson ifanc hyd at 18 mlwydd oed. Fodd bynnag, mae camau gweithredu allweddol sy’n ymwneud â chyfnod pontio yn berthnasol i bob person ifanc a all fod angen gwasanaethau parhaus y tu hwnt i’r ystod oedran hon. Rhaid i’r oed ar gyfer cyfnod pontio i wasanaethau oedolion fod yn hyblyg er mwyn sicrhau bod pob person ifanc yn cael ei drin gan y gweithiwr proffesiynol mwyaf addas ac yn y lleoliad mwyaf addas. Bydd hyn yn dibynnu ar ddatblygiad meddyliol, emosiynol a chorfforol y person ifanc. Gall cyfnod pontio gwael o wasanaethau pobl ifanc i amgylchedd oedolion arwain at fwy o risg o ran parhau â thriniaethau ac apwyntiadau dilynol, a gall canlyniadau hynny fod yn ddifrifol.

Mae’r *Canllawiau ar gyfer Gofal Parhaus i Blant a Phobl Ifanc* ar gyfer y sawl sy’n cynllunio a darparu gwasanaethau gofal parhaus i blant mewn byrddau iechyd ac awdurdodau lleol a’u partneriaid. Mae’n disgrifio’r broses amlasiantaeth, dan arweiniad byrddau iechyd, y dylai pob sefydliad ei gweithredu wrth asesu anghenion a rhoi pecynnau priodol o ofal parhaus ar waith ar gyfer y plant a’r bobl ifanc hynny sydd ei angen gan na ellir diwallu eu hanghenion trwy wasanaethau arbenigol neu gyffredinol cyfredol yn unig.

Gan y bydd traean o lwyth gwaith pediatrydd cyffredinol yn ymwneud â phlant sydd â chyflwr niwrolegol, mae angen ystyried hefyd a ddylid datblygu camau gweithredu pellach i fynd i’r afael â’r plant hynny nad ydynt yn cael mynediad i wasanaethau niwrowyddonol arbenigol.

Disgwyliadau o ran cyflawni

1. Cyflawnir gwasanaethau yn unol â’r safonau a nodir yn *Safonau Niwrowyddorau Cymru Gyfan ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Arbenigol i Blant a Phobl Ifanc*.
2. Sefydliar llwybr gofal parhaus i unrhyw blentyn neu berson ifanc sydd angen pecynnau gofal arbennig
3. Rhaid sicrhau cyfnod pontio cydgysylltiedig, integredig priodol o wasanaethau pediatrig i wasanaethau niwrolegol oedolion trwy gynlluniau pontio unigol

Blaenoriaethau penodol 2013-2017

1. Byrddau iechyd i adolygu cynnydd yn erbyn *Safonau Niwrowyddorau Cymru Gyfan ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd i Blant a Phobl Ifanc* gan sicrhau cyfranogaeth mewn rhaglenni archwilio a chanlyniadau gorfodol Llywodraeth Cymru.

2. Diweddarau cynlluniau lleol i fynd i'r afael ag unrhyw ddiffygion wrth weithredu'n llawn y safonau a bennir yn *Safonau Niwrowyddorau Cymru Gyfan ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd i Blant a Phobl Ifanc*.
3. Sicrhau bod cleifion ag anghenion cymhleth yn cael asesiad amserol priodol o'u hanghenion gofal parhaus
4. Y grŵp cynghori arbenigol cenedlaethol ar bediatreg i gynghori Llywodraeth Cymru ar gamau gweithredu posibl pellach y gellid eu mabwysiadu ar gyfer trin cyflyrau niwrolegol nad ydynt wedi'u cynnwys yn y gwasanaethau arbenigol, gan ymgorffori eu hargymhellion cytunedig yng nghynlluniau cyflawni lleol byrddau iechyd.

Cyfrifoldeb i ddatblygu a chyflawni camau gweithredu

Byrddau iechyd, Pwyllgor Gwasanaethau Arbenigol Gwasanaethau Iechyd Cymru, llywodraeth leol, cydweithio â phartneriaid a gydag arweinyddiaeth genedlaethol gan lechyd Cyhoeddus Cymru

Mesurau sicrwydd posibl

Nifer derbyniadau pediatriig heb eu trefnu i ysbytai oherwydd cyflwr niwrolegol aciwt

Nifer achosion o oedi wrth ryddhau o'r ysbyty oherwydd diffyg gwasanaethau cymunedol priodol

Thema gyflawni chwech: gwella gwybodaeth

Systemau gwybodaeth i gefnogi gofal o ansawdd uchel ac archwilio clinigol, ac i ysgogi gwelliannau i'r gwasanaeth

Mae datblygiad rhagoriaeth ym maes gofal i bobl â chyflwr niwrolegol yn ddibynnol iawn ar ansawdd y wybodaeth sydd ar gael, y wybodaeth ddiweddaraf am y claf a'r data sy'n rhoi tystiolaeth am ganlyniadau triniaethau ac yn llywio datblygiad arfer gorau. Mae gwybodaeth am berfformiad y GIG yn hanfodol i lywio polisi, ysgogi gwelliant parhaus o ran darparu gwasanaethau a darparu gwybodaeth dryloyw i'r cyhoedd ar y gwasanaethau sy'n bwysig iddynt.

Bydd gwireddu manteision y cynllun cyflawni hwn yn galw am welliant parhaus yn yr holl feysydd hyn ac yn arbennig wrth ddatblygu cofnodion cleifion a chynlluniau gofal personol sydd ar gael i bawb sydd angen eu gweld.

Mae defnyddio gwybodaeth gan ddefnyddwyr gwasanaethau am eu profiad o ofal y GIG yn adnodd allweddol ar gyfer gwella profiadau cleifion yn y dyfodol. Rhaid i fyrddau iechyd, mewn cydweithrediad â'r trydydd sector, ddefnyddio ffyrdd effeithiol o ganfod barn cleifion a'i defnyddio i gynllunio a gwella gofal.

Mae'n rhaid i fyrddau iechyd sicrhau eu bod yn cyfrannu at archwiliadau clinigol cenedlaethol. Mae gofyn cyfranogi'n llawn (100%) er mwyn monitro cynnydd yn y ddarpariaeth ofal i bobl â chyflwr niwrolegol, darparu data canlyniadau cymharol a meincnodi'n effeithiol. Mae'n hanfodol bod y data hwn yn cael ei ddefnyddio ar gyfer gwella gwasanaethau'n uniongyrchol, edrych ar berfformiad clinigol ac ar gyfer ymchwil. Mae'r Pwyllgor Cynghori ar Adolygu a Chanlyniadau yr Archwiliad Clinigol Cenedlaethol yn darparu cyngor ar gyfer GIG Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i'r byrddau iechyd sicrhau bod gwybodaeth ar gael yn gyhoeddus am y gwasanaethau a ddarparant a'u heffeithiolrwydd. Mae'r cynllun cyflawni hwn yn galw am lunio adroddiadau cyhoeddus rheolaidd ar ansawdd a ddarpariaeth gwasanaethau i bobl â chyflwr niwrolegol. Nodir y gofynion hyn yn adran olaf y cynllun hwn - beth sy'n rhaid digwydd a phryd.

Disgwyliadau o ran cyflawni

1. Cysylltiadau TG a chyfathrebu sy'n sicrhau bod y wybodaeth glinigol angenrheidiol ar gyfer gofalu am gleifion ar gael yn gyflym ac yn ddiogel ym mhob cwr o Gymru
2. Mae cleifion a gofalywyr yn cymryd rhan reolaidd yn y gwaith o lunio gwasanaethau; gofynnir am farn defnyddwyr gwasanaethau ar y gwasanaethau yn rheolaidd a gweithredir arni er mwyn sicrhau gwelliant parhaol
3. Caiff gwasanaethau eu harchwilio a'u hadolygu'n systematig a defnyddir y canfyddiadau i wella gofal
4. Mae gwybodaeth dryloyw a gyhoeddwyd ar berfformiad y GIG ym maes cyflyrau niwrolegol ar gael yn hawdd i'r cyhoedd

Blaenoriaethau penodol 2013-2017

1. Sicrhau bod y seilwaith TG yn cefnogi'r broses o rannu cofnodion clinigol/cynlluniau gofal personol
2. Rhoi systemau effeithiol ar waith ar gyfer crynhoi a defnyddio barn cleifion yngl n â'u profiad o niwrowyddoniaeth a gwasanaethau cysylltiedig
3. Sicrhau cyfranogiad llawn (100%) mewn archwiliadau clinigol cenedlaethol - er mwyn gwella gwasanaethau ac ail-ddilysu clinigwyr yn feddygol - a sicrhau bod camau'n cael eu cymryd yn unol â'r canfyddiadau. Yn ychwanegol, cyfranogaeth y canlynol:

gwasanaethau niwroadsefydlu yn gofalu am gleifion yng Nghymru, yng ngydweithrediaeth canlyniadau adsefydlu'r DU unedau niwed i'r asgwrn cefn sy'n gofalu am gleifion o Gymru, yn y gronfa ddata genedlaethol o anafiadau i fadrudyn y cefn unedau niwrolawdriniaeth sy'n gofalu am gleifion o Gymru, yn rhaglen cyhoeddiadau canlyniadau ymgynghorwyr

4. Cyfranogi a gweithredu ar ganlyniadau adolygiadau gan gymheiriaid

5. Cyhoeddi gwybodaeth hawdd ei deall ynglŷn ag effeithiolrwydd gwasanaethau niwrowyddoniaeth yn rheolaidd
6. Sefydlu diwrnod archwilio blynyddol cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau niwrolegol a ddarperir i Gleifion Cymru

Cyfrifoldeb am ddatblygu a chymryd camau

Byrddau Iechyd, Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

Mesurau sicrwydd posibl

Y ganran sy'n cydymffurfio â'r archwiliad cenedlaethol

(Ffynhonnell: Pwyllgor Cyngori ar Adolygu a Chanlyniadau yr Archwiliad Clinigol Cenedlaethol)

Thema gyflawni saith: Targedu ymchwil

Ymrwymiad i ymchwil, gan ddarparu gwell diagnosis, rheolaeth, opsiynau triniaeth a chanlyniadau

Mae ymchwil yn allweddol ar gyfer darparu gofal effeithiol i bobl â chyflwr niwrolegol a rhaid i'r GIG ymateb i'r dystiolaeth ymchwil ddiweddaraf wrth gynllunio a darparu ei wasanaethau. Mae ymchwil niwrowyddonol yng Nghymru yn hollbwysig hefyd er mwyn denu buddsoddiadau a staff GIG o'r radd flaenaf. Mae gan Gymru enw rhagorol eisoes yn y maes hwn.

Mae ymchwil niwrowyddonol yn arwain at welliant parhaus yng nghanlyniadau cleifion. Rhaid i'r GIG hyrwyddo ymchwil a sicrhau mynediad priodol at brofion clinigol. Bydd cleifion yn elwa o weithredu arfer gorau ar sail tystiolaeth yn barhaol. Yn y tymor hwy, bydd cleifion hefyd yn elwa o well dealltwriaeth o achosion cyflyrau niwrolegol. Mae hyrwyddo diwylliant ymchwil mewn ysbytai yn denu gweithwyr medrus iawn i Gymru, gan ddarparu cyfleoedd ar gyfer datblygu sgiliau ac ennill profiad o gyflawni triniaethau arloesol.

Mae Llywodraeth Cymru, drwy'r Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Ymchwil Gofal Cymdeithasol ac Iechyd (NISCHR), yn ariannu nifer o fentrau sy'n gysylltiedig â chyflyrau niwrolegol. Mae hyn yn cynnwys cefnogaeth i'r Rhwydwaith Ymchwil ar Ddementiau a Chlefydau Niwro-ddirywiol, Rhwydwaith Ymchwil Epilepsi Cymru, Parc Geneteg Cymru a Banc Meinweoedd y Ffetws Caerdydd. Mae NISCHR hefyd yn darparu cyllid ymchwil cystadleuol ymatebol ac yn gweithio gyda chyllidwyr eraill yn y DU i hybu cyfleoedd i ymchwilwyr ym maes niwrowyddoniaeth allu ymgeisio am gyllid ymchwil.

Mae Ymchwil Iechyd Cymru, menter arall sy'n cael ei chyllido gan NISCHR, yn gweithio gyda'r GIG i gynnal ymchwil cyflym, o ansawdd uchel wedi'i noddi gan ddiwydiant gan gynnwys ymchwil i gyflyrau niwrolegol.

Dylid cydnabod hefyd fod y trydydd sector yn bartneriaid allweddol yn natblygiad gwaith ymchwil, o ran ariannu ymchwil a chefnogi cyfranogiad cleifion mewn treialon clinigol ac ymchwil gymdeithasol.

Disgwyliadau o ran cyflawni

1. Ymchwil lwyddiannus i gyflyrau niwrolegol er mwyn gwella gofal a thriniaeth, gan wneud GIG Cymru yn lle deniadol ar gyfer byw a gweithio i glinigwyr o'r radd flaenaf
2. Defnydd cyflym o ganfyddiadau ymchwil

Blaenoriaethau penodol 2013-2017

1. Cefnogi ac annog neilltuo amser dysgu gwarchodedig i staff sy'n weithredol yn glinigol (mewn gofal sylfaenol, yn ogystal â gofal eilaidd a thrydyddol)
2. Cefnogi ac annog neilltuo amser ymchwil gwarchodedig i staff sy'n weithredol yn glinigol (mewn gofal sylfaenol, yn ogystal â gofal eilaidd a thrydyddol)
3. Adeiladu ac ymestyn cynlluniau hyfforddiant academaidd er mwyn datblygu gweithlu medrus iawn
4. Hyrwyddo cydweithio â mentrau ymchwil allweddol, yn cynnwys seilwaith cyllido NISCHR
5. Cynyddu nifer yr astudiaethau masnachol a phortffolios ymchwil clinigol anfasnachol
6. Cynyddu nifer y bobl â chyflwr niwrolegol sy'n cymryd rhan mewn treialon a'r nifer sy'n parhau mewn treialon hirdymor
7. Sicrhau bod data clinigol allweddol mewn fformat y gellir ei ymgorffori yng nghronfa ddata SAIL (Cyswllt Gwybodaeth Ddi-enw Diogel) ar gyfer ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol lefel poblogaeth i gefnogi ymchwil epidemiolegaid, profion clinigol, effaith ymyriadau a modelu ac asesu darpariaeth
8. Cydweithio'n effeithiol â phrifysgolion a busnesau yng Nghymru a thu hwnt i'w gwneud hi'n bosibl cyflwyno technoleg newydd gost-effeithiol, yn seiliedig ar dystiolaeth i mewn i'r GIG

Cyfrifoldeb am ddatblygu a chymryd camau

Byrddau Iechyd, Pwyllgor Gwasanaethau Arbenigol Gwasanaethau Iechyd Cymru, Llywodraeth Leol, yn gweithio gyda phartneriaid eraill yn cynnwys Iechyd Cyhoeddus Cymru, prifysgolion a chwmnïau fferyllol, a grwpiau seilwaith wedi'u cyllido gan NISCHR

Mesurau sicrwydd posibl

Nifer y bobl â chyflwr niwrolegol sy'n cymryd rhan mewn treialon clinigol a'r nifer sy'n cymryd rhan mewn treialon hirdymor (Ffynhonnell: NISCHR)

7. Cydweithio

Efallai bod gan bobl â chyflyrau niwrolegol anghenion cymhleth sy'n effeithio ar eu gallu i weithredu, nid yn unig yn gorfforol, ond yn emosiynol a meddyliol hefyd. Gall y cyflwr effeithio ar wahanol agweddau ar eu bywydau yn cynnwys teulu a gofawyr, addysg, tai, cyllid a chyflogaeth. O ganlyniad, mae angen i wasanaeth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ystyried pob agwedd ar fywyd yr unigolyn wrth asesu anghenion, gan alw'n aml am gynnwys nifer o wahanol weithwyr proffesiynol a sefydliadau ar draws y maes iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae gan bawb ohonom ran i'w chwarae yn ein hymdrechion i sicrhau diagnosis, triniaeth a chymorth parhaus i bobl â chyflwr niwrolegol.

Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am arweiniad strategol drwy osod y canlyniadau iechyd y mae'n eu disgwyl ar gyfer pobl Cymru. Mae'n dwyn y GIG i gyfrif yngl n â pha mor dda y mae'n cyflawni'r canlyniadau rydym eu heisiau. Mae'r llinellau atebolrwydd yn rhedeg drwy gadeiryddion y byrddau iechyd a'r ymddiriedolaethau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae prif weithredwyr y byrddau iechyd a'r ymddiriedolaethau yn llunio adroddiadau ar gyfer prif weithredwr GIG Cymru sydd hefyd yn gyfarwyddwr cyffredinol adran iechyd a gwasanaethau cymdeithasol Llywodraeth Cymru. Ceir adolygiadau perfformiad rheolaidd a chaiff cynnydd yn erbyn y Cynllun Cyflawni hwn ei fonitro fel y nodir yn adrannau wyth a deg.

Mae **GIG Cymru** yn cynnwys saith Bwrdd Iechyd Lleol a thair ymddiriedolaeth GIG. Y byrddau iechyd sy'n gyfrifol am gynllunio a darparu gwasanaethau lleol i wneud diagnosis, trin a gofalu am bobl sydd wedi'u heffeithio gan gyflwr niwrolegol. Mae pob un o'r saith bwrdd iechyd yn cynllunio ac yn cyllido ystod ddiffiniedig o wasanaethau arbenigol drwy Bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru.

Er mwyn cynllunio gwasanaethau effeithiol i ddiwallu anghenion y boblogaeth a lleihau gwahaniaethau rhwng gwasanaethau, rhaid i fyrddau iechyd gydweithio, ac adeiladu ac arwain cynghreiriau â'r canlynol: GIG Lloegr, ymddiriedolaethau'r GIG, fferyllwyr, llywodraeth leol a'r trydydd sector yn cynnwys cynghreiriau niwrolegol lleol. Hefyd, mae angen gofyn am farn cleifion a gofawyr ar y ddarpariaeth bresennol o ran gwasanaethau, a'u cynnwys yn natblygiadau'r dyfodol. Rhaid iddynt hefyd gyflawni camau gweithredu'n ddi-dor ar draws gofal sylfaenol ac eilaidd a chymunedau lleol. Mae elusennau/sefydliadau'r trydydd sector sy'n cefnogi pobl â chyflyrau niwrolegol yn rhan bwysig o'r broses o ddiwallu anghenion pobl â chyflyrau niwrolegol a rhaid cynnwys eu cyfraniad yn rhan o'r gyfres integredig hon o wasanaethau. Mewn rhai achosion, bydd hosbisau annibynnol hefyd yn chwarae rhan bwysig yn y broses o ddiwallu anghenion pobl ar ddiwedd eu hoes.

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn darparu gwybodaeth a chynghor i fyrddau iechyd er mwyn llywio'r gwaith o gynllunio gwasanaethau. Mae Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaeth Ambiwlans Cymru yn chwarae rhan allweddol yn cludo cleifion sydd angen gwasanaethau mewn argyfwng. Mae Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru yn cynorthwyo byrddau iechyd i gasglu a llunio adroddiadau er gwybodaeth.

Mae gan **lywodraeth leol** ran allweddol yn y gwaith o gefnogi pobl sy'n byw gyda chyflwr niwrolegol. I hyrwyddo dull cydgysylltiedig o weithredu, mae angen iddynt weithio gyda byrddau iechyd lleol drwy'r byrddau gwasanaethau lleol. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys datblygu cynlluniau integredig sengl, ar sail tystiolaeth, yn dangos yr hyn a wnânt i wella canlyniadau iechyd, mewn meysydd fel ysmegu, gordewdra, maeth ac ymarfer corff.

Mae'r **gr p cyngori arbenigol cenedlaethol** sydd newydd ei sefydlu ar gyfer y niwrowyddorau yn darparu cyngor proffesiynol arbenigol i Lywodraeth Cymru a'r GIG.

Bydd **Gr p Gweithredu Cymru ar Gyflyrau Niwrolegol** yn cael ei sefydlu i ddarparu arweiniad strategol cydgysylltiedig ac i oruchwylio'r modd y cyflawnir y cynllun hwn hyd at 2017. Bydd y gr p yn gwneud y canlynol:

Sicrhau ffocws digyfaddawd ar gyflawni blaenoriaethau a chanlyniadau'r cynllun cyflawni

Nodi cyfyngiadau ac atebion cyflawni

Gweithredu drwy Gymru gyfan i gyfeirio a chefnogi'r byrddau iechyd i gyflawni mewn modd cyson ledled Cymru

Cytuno ar y ffordd orau o fesur llwyddiant, gan gynghori ar ddangosyddion ansawdd a chanlyniadau a mesurau sicrwydd

Craffu ar gynlluniau cyflawni lleol ac asesu cynnydd - gan herio perfformiad cymheiriaid

Hwyluso'r broses o rannu a gweithredu arfer gorau

Bydd y gr p yn cynnwys arweinwyr o bob bwrdd iechyd, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Gwasanaeth Ambiwlans Cymru, Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru, cadeirydd y gr p cyngori arbenigol cenedlaethol ar Niwrowyddoniaeth, llywodraeth leol a Chynghrair Niwrolegol Cymru. Gellir dod o hyd i arbenigedd hefyd o'r proffesiynau gwahanol sydd ynghlwm â darparu gofal i bobl â chyflyrau niwrolegol a'r trydydd sector. Bydd perthynas y gr p â'r gr p cyngori arbenigol cenedlaethol yn cael ei nodi yn y cylch gorchwyl. Bydd y cadeirydd yn atebol i Lywodraeth Cymru a bydd y gr p yn llunio adroddiadau blynyddol ar gynnydd.

Mae gan y **trydydd sector** ran bwysig yn y gwaith o ddarparu gwasanaethau a rhoi safbwyntiau defnyddwyr gwasanaethau er mwyn llywio datblygiad gwasanaethau gwell a gwella profiadau cleifion.

Mae rhan gan **bobl** Cymru i'w chwarae hefyd. Nid yw pobl yn dewis datblygu cyflwr niwrolegol na ellir ei wella. Rhaid i ni gyd ysgwyddo mwy o gyfrifoldeb er mwyn sicrhau nad yw pobl sy'n byw gyda chyflwr niwrolegol yn dioddef gwahaniaethu a rhagfarn.

8. Mesur llwyddiant

Mae *Cynllun Sicrhau Ansawdd (2012-2016)* Llywodraeth Cymru yn nodi sut y byddwn yn monitro perfformiad a chynnydd o ran gwella iechyd a gofal iechyd yng Nghymru.

Mae'r cynllun sicrhau ansawdd yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau'r GIG fonitro cyfres o fesurau perfformiad a bennwyd yn genedlaethol a llunio adroddiadau rheolaidd yn eu cylch ar gyfer y cyhoedd, a thrwy hynny, ar gyfer Llywodraeth Cymru a'u Byrddau. Mae'r cynllun cyflawni hwn yn ei gwneud hi'n ofynnol i bob sefydliad gyhoeddi adroddiad blynyddol ar wasanaethau i bobl â chyflwr niwrolegol yng Nghymru er mwyn arddangos cynnydd. Bydd y flwyddyn gyntaf felly'n un o newid wrth i ni symud tuag at y dull newydd hwn o weithredu.

Mae'r cynllun cyflawni yn nodi rhai mesurau sicrwydd posibl a fydd yn dynodi i ba raddau y mae cynnydd yn cael ei wneud. Bydd angen datblygu mesurau sicrwydd gan y grŵp gweithredu i ysgogi cynnydd o ran cyflawni'r cynllun hwn. Dylent weithio gyda'r grŵp cynghori arbenigol cenedlaethol newydd ar Niwrowyddorau i ddatblygu mesurau gwasanaeth, ansawdd bywyd, iechyd a lles.

Mae'r cynllun hwn yn canolbwyntio'n gadarn ar leihau anghydraddoldeb iechyd ac annhegwch o ran hygyrchedd gwasanaethau. Bydd gwaith craffu yn canolbwyntio ar y gwahaniaethau ledled Cymru ac yn edrych i weld a fu lleihad yn y bwlch rhwng ardaloedd mwyaf a lleiaf difreintiedig y wlad.

Yn gyson â'n bwriad i ddarparu gwasanaethau niwrolegol o ansawdd uchel, byddwn yn gwneud cymariaethau rhyngwladol lle bo modd.

9. Cynlluniau lleol – gweithredu lleol

Mae gofyn i fyrdau iechyd gynnal asesiadau o anghenion y boblogaeth leol a datblygu cynlluniau cyflawni lleol i ddangos sut y bwriadant weithredu'r blaenoriaethau'n gynyddol o fewn y cynllun hwn a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau. Byddant yn cyflwyno adroddiadau blynyddol ar gynnydd.

Beth sy'n rhaid digwydd a phryd

Camau gweithredu er mwyn helpu i gyflawni themâu un i saith

Cam gweithredu	Cyfrifoldeb	Pryd
1: Sefydlu Grŵp Gweithredu Cymru ar Gyflyrau Niwrolegol i ddarparu arweiniad strategol a gweithio ar lefel Cymru gyfan i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r cynllun cyflawni hwn	Byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau (bydd Llywodraeth Cymru yn hwyluso'r trefniadau ar gyfer sefydlu'r grŵp)	Erbyn Mehefin 2014
2: Adolygu'r angen am rwydwaith niwrowyddoniaeth Cymru gyfan i gefnogi'r gwaith cyflawni yn erbyn y cynllun cyflawni	Byrddau iechyd a Llywodraeth Cymru	Erbyn Tachwedd 2014
3: Cynnal asesiadau o anghenion y boblogaeth leol o ran gwneud diagnosis a thrin cyflyrau niwrolegol a chyd-forbidrwydd eraill; adolygu gwasanaethau yng ngoleuni'r asesiadau, gan nodi bylchau rhwng yr angen a'r ddarpariaeth gyfredol; a nodi lle mae angen newid y ddarpariaeth er mwyn ateb y galw	Pob bwrdd iechyd, gyda chefnogaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru a chynghreiriau niwrolegol eraill	Erbyn Gorffennaf 2014
4: Ysgrifennu cynlluniau cyflawni lleol, gan arddangos dull systematig o weithredu'r Cynllun Cyflawni hwn yn flaengar gan gynnwys sut fydd y cynllun yn lleihau anghydraddoldeb erbyn 2017	Pob bwrdd iechyd, ar y cyd ag ymddiriedolaethau'r GIG, Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru, llywodraeth leol a'r trydydd sector, gan gynnwys cynghreiriau niwrolegol lleol, i	Erbyn Medi 2014

	sicrhau darpariaeth ofal integredig	
5: Adolygiadau cymheiriaid o Gynlluniau Cyflawni lleol i rannu arferion gorau ac archwilio synergeddau posibl, a gosod y sail ar gyfer datblygu camau gweithredu strategol i Cymru gyfan	Grŵp gweithredu, byrddau iechyd a WHSCC	Erbyn Tachwedd 2014
6: Cytuno ar gynllun cyflawni strategol i fesur cyflawniad yn erbyn y cynllun cyflawni hwn, gan gynnwys ardaloedd lle mae angen dull o weithredu ar gyfer Cymru gyfan gan gynnwys: datblygu mesurau sicrwydd adolygu cynnydd yn erbyn argymhellion yr adolygiad o niwrowyddoniaeth oedolion ystyried yr angen i ddatblygu llwybrau gofal ychwanegol/ safonau ansawdd ar gyfer cyflyrau niwrolegol penodol	Grŵp gweithredu, byrddau iechyd lleol, y grŵp cynghori arbenigol cenedlaethol ar Niwrowyddoniaeth a Phwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru	Erbyn Tachwedd 2014
7: Adolygu argymhellion yr adroddiad arfaethedig ar yr iaith Gymraeg a gofal iechyd a datblygu canllawiau ar sut y dylid integreiddio hyn mewn cynlluniau cyflawni	Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd yr Iaith Gymraeg	Erbyn Medi 2014
8: Lluo adroddiadau ar gynnydd ffurfiol ar gyfer y Byrddau a Llywodraeth Cymru a) Cwblhau, a	Y byrddau iechyd a'r ymddiriedolaethau a'r grŵp gweithredu (Llywodraeth Cymru i ddatblygu fformat ar gyfer	a) erbyn Tachwedd

<p>chanlyniadau camau gweithredu tri, pedwar pump a chwech</p> <p>b) Cynnydd ar gyflawni cynlluniau cyflawni strategol cam gweithredu pedwar a chwech uchod</p>	<p>llunio adroddiadau, a'i gytuno gan y grŵp gweithredu)</p>	<p>2014</p> <p>b) erbyn Mehefin 2015, 2016, a 2017</p>
<p>9: Cyhoeddi data ar ddangosyddion canlyniadau a mesurau sicrwydd ar wefannau</p>	<p>Byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau</p> <p>(data wedi'i gyflenwi gan Lywodraeth Cymru)</p>	<p>Yn flynyddol ym mis Mai 2015, 2016 a 2017</p>
<p>10: Adolygu a diweddarau cynlluniau cyflawni a cherrig milltir</p>	<p>Byrddau iechyd yn gweithio mewn partneriaeth â Phwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru a gyda byrddau iechyd eraill, yr ymddiriedolaethau, llywodraeth leol a'r trydydd sector</p>	<p>O leiaf yn flynyddol, gyda'r adolygiad cyntaf erbyn Mehefin 2015</p>
<p>11: Cyhoeddi adroddiad blynyddol ar gyfer Cymru gyfan ar effeithiolrwydd gwasanaethau niwrowyddorau'r GIG yng Nghymru, yn seiliedig ar adroddiadau cam gweithredu wyth a data cam gweithredu naw</p>	<p>Byrddau iechyd a Llywodraeth Cymru</p>	<p>Yn dilyn cyhoeddi adroddiadau'r byrddau iechyd ym mis Awst 2015, yna'n flynyddol</p>

ATODIAD UN – DOLENNI AT DDOGFENNAU CYFEIRIO

Adolygiad Arbenigol ar Niwrowyddorau i Oedolion

<http://wales.gov.uk/about/cabinet/cabinetstatements/2008/indexprev/?lang=cy>

Gweithredu Adolygiad Niwrowyddoniaeth Cymru

<http://wales.gov.uk/topics/health/publications/health/reports/neuroscience/?lang=cy>

Adroddiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Lwybrau Gofal ar gyfer Cyflyrau Niwrolegol Hirdymor

<http://wales.gov.uk/topics/health/publications/health/letters/2010/letter026101/?lang=cy>

Safonau Niwrowyddorau Cymru Gyfan ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Arbenigol i Blant a Phobl Ifanc

<http://www.wales.nhs.uk/sites3/Documents/355/Neurosciences%20Eng%20web.pdf>

Fframwaith gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Plant, Pobl Ifanc a Gwasanaethau mamolaeth yng Nghymru

<http://www.wales.nhs.uk/sites3/home.cfm?OrgID=441>

Canllawiau ar gyfer Gofal Parhaus i Blant

<http://wales.gov.uk/docs/phhs/publications/121127carecy.pdf>

Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Gofal Iechyd parhaus y GIG yng Nghymru

<http://wales.gov.uk/consultations/healthsocialcare/continuing/?status=closed&lang=en>

Darparu Gofal Iechyd Lleol – Sbarduno newid

wales.gov.uk/topics/health/publications/health/strategies/healthcare/?skip=1&lang=cy

Fframwaith Integreiddio ar gyfer Pobl Hŷn ag Anghenion Cymhleth

<http://wales.gov.uk/topics/health/publications/socialcare/strategies/integration/?lang=en>

Fframwaith Gweithredu ar gyfer Byw'n Annibynnol

<http://wales.gov.uk/topics/equality/rightequality/disability/framework-for-action/?skip=1&lang=cy>

Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant

<http://www.senedd.cynulliadcymru.org/mglIssueHistoryHome.aspx?IId=5664>

Strategaeth ar gyfer Gofalwyr yng Nghymru 2013

<http://wales.gov.uk/topics/health/publications/socialcare/strategies/carers-strategy/?lang=cy>

Cynllun Cyflawni ar gyfer Strôc

<http://wales.gov.uk/topics/health/publications/health/reports/plan/?skip=1&lang=cy>

Cynllun Cyflawni ar gyfer y rhai sy'n Ddifrifol Wael

<http://wales.gov.uk/topics/health/publications/health/strategies/delivery-plan/?skip=1&lang=cy>

Cynllun Cyflawni ar gyfer Clefyd y Galon

http://wales.gov.uk/topics/health/publications/health/reports/heart_plan/?skip=1&lang=cy

Cynllun Darparu Gofal Diwedd Oes

<http://wales.gov.uk/topics/health/publications/health/reports/end-of-life/?skip=1&lang=cy>

Cynllun Cyflawni ar gyfer Iechyd Anadlol

<http://wales.gov.uk/topics/health/publications/health/strategies/respiratory-plan/?lang=cy>

Cynllun Gweithredu Cymru ar gyfer Clefydau Prin

<http://wales.gov.uk/consultations/healthsocialcare/disease/;jsessionid=9C0F608925707ACCA9FA1F78FC5D8D10?skip=1&lang=cy>

Rhagori – Y Cynllun Sicrhau Ansawdd ar gyfer y GIG yng Nghymru

<http://wales.gov.uk/topics/health/publications/health/strategies/excellence/?skip=1&lang=cy>

Mwy na Geiriau – Fframewaith Strategol ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg mewn Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol

<http://wales.gov.uk/topics/health/publications/health/guidance/words/?skip=1&lang=cy>

Safonau Cymru Gyfan ar gyfer cyfathrebu a gwybodaeth i bobl sydd wedi colli defnydd o'u synhwyrâu

<http://wales.gov.uk/topics/health/publications/health/guidance/standards/?skip=1&lang=cy>

Canlyniadau Iechyd Tecach i Bawb

<http://wales.gov.uk/topics/health/publications/health/reports/fairer/?skip=1&lang=cy>

Ein Dyfodol Iach

<http://wales.gov.uk/topics/health/ocmo/healthy/;jsessionid=5B7F164A954374C9A31CA7530B308A04?lang=en>

Y Rhaglen Lywodraethu

<http://wales.gov.uk/about/programmeforgov/?skip=1&lang=cy>

Gosod y Cyfeiriad

<http://wales.gov.uk/topics/health/publications/health/strategies/settingthedirection/?skip=1&lang=cy>

Gwasanaeth Iechyd y Bobl

<http://wales.gov.uk/consultations/healthsocialcare/people/?skip=1&lang=cy>

Cynllunio Iechyd Gwledig – gwella’r dull o gyflenwi gwasanaethau ledled Cymru

<http://wales.gov.uk/topics/health/publications/health/strategies/ruralhealthplan/?skip=1&lang=cy>

Cyfarwyddeb ar Ddatblygu Gwasanaethau Epilepsi

<http://wales.gov.uk/topics/health/publications/health/strategies/epilepsy/?skip=1&lang=cy>

Cyfarwyddeb Datblygu a Chomisiynu Gwasanaethau: Poen Anfalaen Cronig

<http://wales.gov.uk/topics/health/publications/health/strategies/pain/?skip=1&lang=cy>

Grŵp Trawsbleidiol ar Niwrowyddorau – Ymchwiliad i ddeall cyflyrau niwrolegol mewn Unedau Achosion Brys (Mawrth 2011)

http://www.walesneurologicalalliance.org.uk/pdf/ae-report_we.pdf

Grŵp Trawsbleidiol ar Gyflyrau Niwrolegol (Chwefror 2013)

http://www.walesneurologicalalliance.org.uk/pdf/cpgnc-physioinquiry_feb2013_e.pdf

Grŵp Trawsbleidiol ar Ddystroffi’r Cyhyrau – Adroddiad Thomas: Mynediad i Ofal Niwrogyhyrol Arbenigol yng Nghymru (Gorffennaf 2010)

http://www.walesneurologicalalliance.org.uk/documents/e_thomasreportaccesspecialistneuromuscularcareinwales.php